



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 Rhif 2500 (Cy.272)

2011 No. 2500 (W.272)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

MENTAL HEALTH, WALES

Rheoliadau Iechyd Meddwl (Asesu
Defnyddwyr Blaenorol o
Wasanaethau Iechyd Meddwl
Eilaidd) (Cymru) 2011

The Mental Health (Assessment of
Former Users of Secondary Mental
Health Services) (Wales)
Regulations 2011

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau ynghylch asesiadau iechyd meddwl ar gyfer defnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

1. These Regulations contain provisions about mental health assessments for former users of secondary mental health services.

2. Mae rheoliad 3 yn darparu bod y cyfnod rhyddhau perthnasol a bennir i oedolyn fod yn gymwys am asesiad iechyd meddwl yn dilyn ei ryddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn dair blynedd. Os rhyddheir yr oedolyn o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, bydd unrhyw gyfnod rhyddhau perthnasol a bennir i'r oedolyn hwnnw fel a ddarperir yn rheoliad 6.

2. Regulation 3 provides that the term of the relevant discharge period during which an adult is eligible for a mental health assessment following discharge from secondary mental health services is three years. Where an adult was discharged from secondary mental health services before the coming into force date of these Regulations, the term of any relevant discharge period for that adult is as provided in regulation 6.

3. Mae rheoliad 4 yn darparu bod copi o adroddiad o'r asesiad yn cael ei ddarparu heb fod yn hwyrach na deng niwrnod gwaith wedi i asesiad iechyd meddwl yr oedolyn gael ei gwblhau.

3. Regulation 4 provides for a copy of the assessment report to be provided no later than ten working days following the completion of an adult's mental health assessment.

4. Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer penderfynu man preswyllo arferol yr oedolyn at ddibenion Rhan 3 (asesiadau ar ddefnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd) o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a yw man preswyllo arferol oedolyn wedi ei leoli o fewn ardal awdurdod lleol penodol.

4. Regulation 5 provides for the determination of an adult's usual residence for the purposes of Part 3 (assessments of former users of secondary mental health services) of the Mental Health (Wales) Measure 2010, where there is a question about whether an adult's usual residence is situated within a particular local authority area.

5. Mae rheoliad 6 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â'r cyfnod rhyddhau perthnasol ar gyfer oedolyn sydd wedi cael ei ryddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd o fewn dwy flynedd cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

5. Regulation 6 makes transitional provision relating to the relevant discharge period for an adult who has been discharged from secondary mental health services within two years prior to the coming into force date of these Regulations.

6. Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi o gostau a buddiannau tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan: Y Tîm Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

6. A regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Mental Health Legislation Team, Department for Health, Social Services and Children, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2011 Rhif 2500 (Cy.272)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

**Rheoliadau Iechyd Meddwl (Asesu
Defnyddwyr Blaenorol o
Wasanaethau Iechyd Meddwl
Eilaidd) (Cymru) 2011**

Gwnaed 18 Hydref 2011
Yn dod i rym 6 Mehefin 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 23(1)(b), 26(2)(b), 29(1) a 52(2) o Fesur Iechyd Meddwl 2010(1).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 52(5)(b) o'r Mesur, ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Meddwl (Asesu Defnyddwyr Blaenorol o Wasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 6 Mehefin 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adroddiad o'r asesiad" ("*assessment report*") yw adroddiad unigol, ysgrifenedig, sy'n cofnodi os yw asesiad iechyd meddwl wedi dynodi unrhyw wasanaethau a all wella neu rwystro dirywiad yn iechyd meddwl oedolyn yn unol ag adran 25 (diben asesu) o'r Mesur;

ystyr "asesiad iechyd meddwl" ("*mental health assessment*") yw dadansoddiad o iechyd meddwl oedolyn at y dibenion a ddarperir yn adran 25 o'r Mesur;

2011 No. 2500 (W.272)

MENTAL HEALTH, WALES

**The Mental Health (Assessment of
Former Users of Secondary Mental
Health Services) (Wales)
Regulations 2011**

Made 18 October 2011
Coming into force 6 June 2012

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by sections 23(1)(b), 26(2)(b), 29(1) and 52(2) of the Mental Health (Wales) Measure 2010(1).

A draft of this instrument has been laid before the National Assembly for Wales in accordance with section 52(5)(b) of the Measure, and approved by resolution of the National Assembly for Wales.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Mental Health (Assessment of Former Users of Secondary Mental Health Services) (Wales) Regulations 2011 and they come into force on 6 June 2012.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations—

"adult" ("*oedolyn*") means a person aged eighteen years or above who is entitled to a mental health assessment under section 22 (entitlement to assessment) of the Measure;

"assessment report" ("*adroddiad o'r asesiad*") means a single report in writing which records whether a mental health assessment has identified any services which might improve or prevent a deterioration in the mental health of an adult in accordance with section 25 (purpose of assessment) of the Measure;

ystyr "cyfnod rhyddhau perthnasol" ("*relevant discharge period*") yw'r cyfnod y caiff oedolyn wneud cais i asesiad iechyd meddwl gael ei wneud arno, yn dilyn cael ei ryddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1);

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010; ac

ystyr "oedolyn" ("*adult*") yw person deunaw mlwydd oed neu hŵn na hynny sydd â hawl i asesiad iechyd meddwl o dan adran 22 (hawl i asesiad) o'r Mesur.

Cyfnod Rhyddhau Perthnasol

3.—(1) Mae'r cyfnod rhyddhau perthnasol yn cychwyn ar y dyddiad y rhyddheir yr oedolyn o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd ac y mae'n gorffen pan ddaw'r cyfnod o dair blynedd o'r dyddiad hwnnw i ben.

(2) Ond os yw'r oedolyn wedi ei ryddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, mae'r cyfnod rhyddhau perthnasol ar gyfer yr oedolyn hwnnw fel a ddarperir yn rheoliad 6.

Darparu adroddiad o'r asesiad

4.—(1) Mae copi o adroddiad o'r asesiad i'w ddarparu i oedolyn sydd wedi cael asesiad iechyd meddwl, heb fod yn hwyrach na deng niwrnod gwaith ar ôl cwblhau'r asesiad.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, darperir copi o adroddiad o'r asesiad ar y diwrnod pan fo'r canlynol yn digwydd—

- (a) y traddodir ef drwy law i oedolyn; neu
- (b) yr anfonwyd ef yn rhagdaledig drwy'r post wedi'i gyfeirio at oedolyn ym man preswyllo arferol yr oedolyn hwnnw neu fan preswyllo hysbys ddiwethaf yr oedolyn hwnnw.

Penderfynu man preswyllo arferol

5.—(1) Pan fo, at ddibenion Rhan 3 (asesiadau ar ddefnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd) o'r Mesur, unrhyw amheuaeth p'un ai os yw man preswyllo arferol yr oedolyn yn dod o fewn ardal awdurdod lleol ("ardal awdurdod lleol A"), yna mae'r awdurdod lleol ar gyfer ardal awdurdod lleol A ("awdurdod lleol A") yn gyfrifol am benderfynu o fewn pa ardal awdurdod lleol y mae'r oedolyn hwnnw fel arfer yn preswyllo, yn unol â pharagraff (2).

"the Measure" ("*y Mesur*") means the Mental Health (Wales) Measure 2010;

"mental health assessment" ("*asesiad iechyd meddwl*") means an analysis of an adult's mental health for the purposes provided in section 25 of the Measure;

"relevant discharge period" ("*cyfnod rhyddhau perthnasol*") means the period within which an adult may request that a mental health assessment is carried out following discharge from secondary mental health services; and

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means any day except Saturday, Sunday, Christmas Day, Good Friday or a bank holiday in England and Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971(1).

Relevant discharge period

3.—(1) The relevant discharge period begins on the date on which an adult is discharged from secondary mental health services and ends upon the expiry of a period of three years from that date.

(2) But if an adult was discharged from secondary mental health services prior to the date of the coming into force of these Regulations, the relevant discharge period for that adult is as provided in regulation 6.

Provision of assessment report

4.—(1) A copy of an assessment report is to be provided to an adult who has had a mental health assessment no later than ten working days following the completion of the assessment.

(2) For the purposes of this regulation, the copy of the assessment report is provided on the day when it is—

- (a) delivered by hand to an adult; or
- (b) sent by prepaid post addressed to an adult at that adult's usual or last known residence.

Determination of usual residence

5.—(1) Where for the purposes of Part 3 (assessments of former users of secondary mental health services) of the Measure there is a question as to whether an adult's usual residence lies within a local authority area ("local authority area A"), then the local authority for local authority area A ("local authority A") is responsible for determining within which local authority area that adult usually resides in accordance with paragraph (2).

(1) 1971 p. 80.

(1) 1971 c. 80.

(2) At ddibenion gwneud penderfyniad fel a ddarperir ym mharagraff (1)—

- (a) tybir bod oedolyn fel arfer yn preswyllo yn y cyfeiriad a roddwyd i awdurdod lleol A gan yr oedolyn hwnnw fel y cyfeiriad y mae fel arfer yn preswyllo ynddo;
- (b) os na roddir y fath gyfeiriad gan oedolyn tybir bod yr oedolyn hwnnw fel arfer yn preswyllo yn y cyfeiriad a roddwyd ganddo i awdurdod lleol A fel y cyfeiriad mwyaf diweddar ar ei gyfer;
- (c) pan na ellir penderfynu man preswyllo arferol oedolyn o dan is-baragraffau (a) neu (b) uchod, tybir bod yr oedolyn hwnnw fel arfer yn preswyllo yn yr ardal lle y mae'n bresennol.

(3) Hyd nes y gwneir penderfyniad ar fan preswyllo arferol oedolyn o dan baragraff (1), tybir bod yr oedolyn hwnnw fel arfer yn preswyllo o fewn ardal awdurdod lleol A.

(4) Ond pan fo'r partneriaid iechyd meddwl lleol ar gyfer ardal awdurdod lleol arall ("ardal awdurdod lleol B") yn cytuno i weithredu fel y partneriaid iechyd meddwl lleol ar ran oedolyn, yna tybir bod yr oedolyn hwnnw fel arfer yn preswyllo o fewn ardal awdurdod lleol B.

Darpariaethau trosiannol mewn perthynas â'r cyfnod rhyddhau perthnasol

6. Pan fo oedolyn wedi ei ryddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd o fewn dwy flynedd cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, yna bydd y cyfnod rhyddhau perthnasol ar gyfer yr oedolyn hwnnw yn gyfnod o amser a fydd yn cychwyn ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym ac yn gorffen pan ddaw tair blynedd i ben ar ôl dyddiad rhyddhau'r oedolyn hwnnw.

(2) For the purposes of making a determination as provided in paragraph (1)—

- (a) an adult is to be deemed as usually resident at the address given by that adult to local authority A as being the address at which he or she usually resides;
- (b) where an adult gives no such address that adult is to be deemed as usually resident at the address which he or she gives to local authority A as being his or her most recent address;
- (c) where an adult's usual residence cannot be determined under sub-paragraphs (a) or (b) above, that adult is to be deemed as usually resident in the area in which he or she is present.

(3) Until such time as a determination of an adult's usual residence is made under paragraph (1), that adult is deemed to be usually resident within local authority area A.

(4) But where the local mental health partners for another local authority area ("local authority area B") agree to act as the local mental health partners for an adult, then that adult is deemed to be usually resident within local authority area B.

Transitional provisions relating to the relevant discharge period

6. Where an adult has been discharged from secondary mental health services within two years prior to the date of the coming into force of these Regulations the relevant discharge period for that adult is the period of time beginning on the coming into force date of these Regulations and ending on the expiry of three years from that adult's date of discharge.


Lesley Griffiths

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers

18 Hydref 2011

18 October 2011

© Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2011 Rhif 2500 (Cy.272)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Meddwl (Aseu
Defnyddwyr Blaenorol o
Wasanaethau Iechyd Meddwl
Eilaidd) (Cymru) 2011

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 No. 2500 (W.272)

MENTAL HEALTH, WALES

The Mental Health (Assessment of
Former Users of Secondary Mental
Health Services) (Wales)
Regulations 2011